# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar Zoom, Dydd Mercher, 6 Hydref 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Diweddariad ar recriwtio Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n Siaradwyr Cymraeg (Tudalennau 3 - 4)**

**4. Darpariaeth Gofal Cartref (Tudalennau 5 - 12)**

**5. Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion a'r gwasanaethau a ddarperir (Tudalennau 13 - 32)**

**6. Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4, 2020-2021 (Tudalennau 33 - 64)**

**7. Drafft Blaenraglen Waith 2021-2022 (Tudalennau 65 - 70)**

**8. Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor 17 Medi 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt (Tudalennau 71 - 74)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Eitem Agenda 3

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I:** **Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**

**DYDDIAD:** **6 Hydref 2021**

**LLEOLIAD:** **Siambr y Cyngor, Penmorfa**

**TEITL:** **Diweddariad ar recriwtio Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n siaradwyr Cymraeg**

**PWRPAS YR ADRODDIAD: Cynghori Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa bresennol mewn perthynas â recriwtio Gofalwyr Maeth, a siaradwyr Cymraeg yn benodol**

**Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH: Cais am ddiweddariad gan aelodau'r pwyllgor**

**CEFNDIR:**

Mae'r Gwasanaeth Maethu yng Ngheredigion yn darparu lleoliadau hirdymor a thymor byr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion. Mae ystod oedran y gwasanaeth ar gyfer plant o'u geni hyd at 18 mlwydd oed. Ar hyn o bryd, mae gan Gyngor Sir Ceredigion 31 o Deuluoedd Maeth cofrestredig.

Mae gan y Sir hefyd 16 o ofalwyr sy'n berthnasau (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel teulu a ffrindiau) a ddynodwyd ac a symudwyd ymlaen drwy'r un prosesau â Gofalwyr Maeth prif ffrwd ac a gofrestrwyd i roi gofal a chefnogaeth i blentyn/plant sy'n derbyn gofal penodol, fel yr amlinellir yn eu cofrestriad unigol. Lleolir y gofalwyr sy'n berthnasau yng Ngheredigion ledled y Deyrnas Unedig.

**Y sefyllfa bresennol**

Ar hyn o bryd, mae llai na 5 o blant mewn lleoliadau maethu prif ffrwd/maethu gan berthnasau yng Ngheredigion sydd wedi'u dynodi â'r Gymraeg yn iaith a ffefrir ganddynt. Fodd bynnag, y mae yna blant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gallu gofalwyr maeth o ran y Gymraeg;

| **Lefel ALTE** | **Gwrando a siarad Cymraeg** (Nifer y gofalwyr) | **Darllen Cymraeg** (Nifer y gofalwyr) | **Ysgrifennu Cymraeg** (Nifer y gofalwyr) |
|---|---|---|---|
| **0** | 6 | 11 | 14 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | 9 | 9 | 5 |
| **2** | 5 | 1 | 2 |
| **3** | 2 | 0 | 1 |
| **4** | 0 | 1 | 0 |
| **5** | 1 | 1 | 1 |

**Meysydd gwasanaeth y mae angen datblygu ymhellach arnynt**

**Recriwtio -** Elfen allweddol ar gyfer y gwasanaeth wrth symud ymlaen yw gweithio gydag ymgyrchoedd recriwtio Cenedlaethol a Rhanbarthol a fydd yn rhoi ystod o gyfleoedd wedi'u targedu'n benodol sy'n ddefnyddio adnoddau Cenedlaethol gan gynnwys y cyfryngau e.e. hysbysebion ar S4C ac ITV. Ychwanegir at hyn gan gynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Sirol a fydd yn canolbwyntio ar dargedu ymgyrchoedd penodol wedi'u gyrru gan anghenion dynodedig ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion e.e. ymgysylltu â chlybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a grwpiau yn y gymuned ehangach.

**Cefnogi Iaith -** rhoi cyfleoedd i Ofalwyr Maeth Ceredigion wella eu sgiliau iaith drwy gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd a ddarperir drwy Borth Cymorth Cynnar.

**Cefnogaeth ddiwylliannol -** datblygu cynllun integreiddio a chymdeithasu blynyddol gan fanteisio i'r eithaf ar dreftadaeth a diwylliant Ceredigion a rhoi'r wybodaeth a'r mynediad i'r Gofalwyr Maeth i gyfoeth o weithgareddau'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth ac amgylcheddau naturiol yn lleol. Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn cydweithrediad â Phorth Cymorth Cynnar, yr adran Addysg a sefydliadau trydydd sector i ehangu a dathlu'r cyfoeth o ddarpariaeth leol sydd ar gael i Ofalwyr Maeth Ceredigion.

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION: Nodi'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

**Enw Cyswllt: Donna Pritchard**
**Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal**
**Dyddiad yr Adroddiad: 24.08.2021**
**Acronymau: Dim**

## Cyngor Sir CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach: |
| **DYDDIAD:** | 6 Hydref 2021 |
| **LLEOLIAD:** | **Zoom** |
| **TEITL:** | **Darpariaeth Gofal Cartref** |
| **DIBEN YR ADRODDIAD:** | **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am y sefyllfa bresennol ynghylch gofal cartref a datblygiadau'r gwasanaeth.** |
| **PAM MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | **Er diweddariad** |

**CEFNDIR:**
Yng Ngheredigion dros nifer o flynyddoedd parhawyd i ddiwallu gofal cartref drwy gyfrwng y Fframwaith Comisiynu ar gyfer Caffael, er mwyn darparu gofal i unigolion sy'n ddefnyddwyr y gwasanaeth. Gelwir y broses hon yn e-dendro. Yn dilyn bodloni cyfres ofynion caffael, mae holl ddarparwyr Ceredigion yn cael eu cofrestru ar gyfer y Fframwaith ac yna maent yn gallu contractio am wasanaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Cyn gynted ag y bo gweithiwr cymdeithasol wedi nodi anghenion gofal cymwys, yn sgil Asesiad yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gwneir cais am wasanaeth. Cyn gynted ag y bo hwn wedi ei gadarnhau, rhoddir yr hysbysiad ar borthol caffael e-dendro ar GwerthwchiGymru. Yna, mae'r darparwyr sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal yng Ngheredigion yn gallu edrych ar y pecynnau gofal sydd eu hangen yn y gymuned a chyflwyno cynigion er mwyn darparu'r gofal hwnnw. Gwneir y cynigion hyn i'r teulu ac unwaith y byddant wedi'u derbyn, trefnir i ddechrau ar y gofal. Os yw teulu yn gwrthod y cynnig (er enghraifft os nad yw'r amserau gofal yn bodloni eu dewis personol ac nad yw'n bosibl dod o hyd i gyfaddawd), yna bydd y cais am ofal yn parhau ar y porthol caffael hyd nes y daw cynnig arall. Ar gyfer anghenion gofal cymhleth iawn, gall y pecyn gofal a chymorth gynnwys anghenion gofal a fydd yn gofyn am 2 aelod o staff gofal am hyd at 4 gwaith y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn. Bydd ystod anghenion gofal pobl eraill yn cwmpasu'r holl anghenion i lawr hyd at ymyraethau ar lefel is, sef rhyw unwaith neu ddwywaith yr wythnos i gynorthwyo gyda rhoi bath a chawod, er enghraifft. Mae Gofal a Chymorth yn y cartref yn canolbwyntio ar gyflenwi sgiliau er mwyn darparu gofal personol ac anghenion llesiant.

Drwy gydol pandemig y Covid-19, mae'r Darparwyr Gofal Cartref wedi gweithio'n ddiflino i gynnal anghenion gofal a chymorth ein cymunedau. Roedd eu staff yn parhau i ddarparu cymorth i'r unigolion bregus hynny er eu bod yn cynyddu'r risg iddynt hwy eu hunain a'u

teuluoedd wrth iddynt gynnal gofal a chymorth a oedd yn golygu cyswllt agos. Mae ymdrechion y staff hyn wedi eu cydnabod, ac yn parhau i gael eu cydnabod, yn ymdrechion eithriadol ar adeg nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen.

Er mwyn cefnogi'r amgylchedd gwaith dwys, risg uchel hwnnw, sefydlodd Cyngor Sir Ceredigion yr Hwb Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) a thrwy gydol yr amser, mae wedi bod yn danfon y cyfarpar diogelu hwnnw yn uniongyrchol at ein Darparwyr Gofal, ar gyfer eu staff. Rhoddwyd protocolau clir, asesiadau risg a chynlluniau parhad busnes ar waith gan bob asiantaeth ac roedd y rhain wedi'u hategu gan ganllawiau a gwybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Sefydlodd swyddogion Cyngor Sir Ceredigion gyfarfod hwb 'rhithiol' bob wythnos gan ddefnyddio Teams ac anogwyd darparwyr i gyfarfod â'i gilydd a derbyn a rhannu gwybodaeth ar y cyd wrth i'r pandemig ddatblygu. Mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynnal dealltwriaeth clir o sut mae'r 18 mis diwethaf wedi effeithio ar y darparwyr gofal hyn sydd ar y llinell flaen a beth yw'r pwysau sydd wedi bod arnynt. Mae'r darparwyr hefyd yn derbyn galwadau ffôn dyddiol gan swyddogion ac maent yn casglu data manwl yn wythnosol am y pwysau sydd ar eu gwasanaeth.

Mae ein Gwasanaeth Galluogi mewnol hefyd wedi chwarae rhan sylweddol iawn yn ystod y 18 mis diwethaf yn cefnogi ein darparwyr ac yn wir maent wedi bod yn wasanaeth craidd wrth iddynt gynnig gwasanaeth pontio i lawer o'r rhai hynny sydd ag anghenion gofal a chymorth tymor hir, gan gynyddu ac ychwanegu at y capasiti mewnol er mwyn cynorthwyo wrth i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbytai. Pan oedd capasiti yn caniatáu hynny, bu hyn ar ben y gwaith, o gymryd achosion ychwanegol, sef y rhai hynny yr oedd angen cymorth arnynt, pan oedd y darparwyr gofal cartref yn ei chael yn anodd rhyddhau capasiti yn y tymor byr. Gwnaed hyn i gyd yn ogystal â chynnal y pwyslais Galluogi, sef cefnogi unigolion i ddychwelyd i fod yn annibynnol, drwy ddarparu cymorth ac anogaeth 1-1 tymor byr, er mwyn datblygu eu gallu i ymgymryd â chymaint o'u gofal eu hunain ag y mae eu cyflwr yn ei ganiatáu, model gofal hynod o lwyddiannus y mae angen i ni ei gynnal.

Ym mis Medi 2020 aeth y Gwasanaethau wedi'u Targedu a'r Gwasanaethau Tymor Byr ati i lunio Adroddiad Cryno wythnosol yn rhoi Trosolwg o Ofal Cartref ac o fis Ionawr 2021, cafodd y Gwasanaeth Galluogi ei ychwanegu at hwn. Mae'r dadansoddiad hwn o'r data wedi ein galluogi i olrhain a dadansoddi rhestr aros yr holl sector a data cyflenwi'r gwasanaeth fesul wythnos ac mae'r data hwn yn cael ei rannu'n fewnol â swyddogion allweddol ac mae'n rhoi cipolwg gwerthfawr sy'n sail i drafodaethau dyddiol gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae sesiwn friffio yn cael ei pharatoi er mwyn rhoi darlun sydyn o'r sefyllfa i Sian Howys a Donna Pritchard bob prynhawn dydd Gwener ac oddi ar fis Mehefin 2021 mae Peter Skitt a Jina Hawkes, Rheolwyr Sirol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymuno â'r cyfarfod. Ers mis Awst 2021, mae templed wythnosol yn cael ei gwblhau hefyd gyda chydweithwyr rhanbarthol lle gallwn ddarparu trosolwg o'r niferoedd sy'n aros am ofal cartref wedi'i gomisiynu a gallwn nodi lleoliad unrhyw gymorth y gallant fod yn ei dderbyn yn y cyfamser h.y lleoliad preswyl tymor byr, cymorth Galluogi gartref, cymorth y trydydd sector, cymorth teulu ayb. Yn

ogystal, rydym yn adrodd am lefel capasiti pob darparwr ac yn nodi hynny yn ôl y lliwiau coch, oren, gwyrdd (statws RAG). Mae hyn yn cael ei drafod yn rhanbarthol bob dydd Llun yn y Grŵp Gweithredol Integredig (IEG), gan roi trosolwg o sectorau Gofal Cartref y rhanbarth. Ddwywaith yr wythnos, mae swyddoion yn siarad â phob darparwr er mwyn adolygu eu hadroddiad “SitRep”, sy’n adlewyrchu eu hunanasesiad o’u gweithlu presennol, eu pryderon o ran Covid, eu sefyllfa o ran capasiti a hefyd eu hanghenion o ran cyfarpar diogelu personol (PPE).

Yn ystod ail hanner 2020, daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Cartref at ei gilydd o’r newydd er mwyn edrych ar safle ddatblygol y farchnad a’r dealltwriaeth cynyddol ynghylch effaith Covid-19 ar y sector gofal, yn ogystal ag ystyried recriwtio a chadw staff yn y dyfodol. Roedd Ceredigion hefyd wedi gweld nifer o ddarparwyr yn nodi yn ystod y misoedd diweddar bod cynaliadwyedd eu model busnes yn y sir yn datblygu i fod yn llawer yn fwy heriol yn ariannol. Gyda’r cefndir hwn, cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen adroddiad ar Ofal Cartref i’r Grŵp Arweiniol yn nodi dau ganfyddiad allweddol:

1. Roedd y Gwasanaeth Galluogi wedi cymryd mwy a mwy o ofal “pontio” o ganlyniad i fodel tro-cyflym Llywodraeth Cymru - Rhyddau i Adfer ac Asesu - sy’n gofyn am ryddhau unigolion o ysbytai i’r gymuned yn gyflym cyn cael asesiad o’r anghenion gofal parhaus gyda’r anghenion a’r cymorth gofal hyn yn cael eu hadnabod a’u cyrchu pan fydd yr unigolion hyn eisoes yn y gymuned. Roedd hyn wedi creu pwysau sylweddol ar y Gwasanaeth Galluogi. Nodai’r Adroddiad fod estyniad i’r Gwasanaeth Galluogi yn hanfodol er mwyn diwallu’r gofyn hwn a hefyd er mwyn asesu’r pwysau a’r gofynion cynyddol yn sgil Covid-19 a oedd yn arwain at gynnydd yn hyd y rhestr aros am ofal cartref wedi’i gomisiynu. Cytunwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei ddatblygu dan y model Gydol Oes a Llesiant yn y trawsnewid i wasanaethau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei arwain gan Donna Pritchard, Heather West, Dawn James a Kirsty Jenkins a bydd yn cynnwys dadansoddiad o’r strwythur rheoli, staffio ar y rheng flaen ac opsiynau costio sydd i’w hystyried fel estyniad a thwf parhaol o “wasanaeth pontio” ar gyfer anghenion gofal tymor hir o fewn y Gwasanaeth Galluogi presennol fel Gwasanaeth Gofal Integredig mewnol a fydd yn caniatáu adeiladu capasiti ychwanegol.
2. Ochr yn ochr â hynny, datblygwyd a pheilotwyd model cyflenwi “hybrid” gan y Gwasanaeth Tymor Byr ac wedi’i Dargedu. Mae’r Gwasanaeth Galluogi a’r Gwasanaeth Cydlynu Gofal Cartref o fewn y Gwasanaeth hwnnw. Daethpwyd i gytundeb â’r staff ynglŷn â’r model cyflenwi ar sail gwirfoddol tymor byr. Rhannodd y Rheolwr Rhanbarthol y sir yn “batsys” yn seiliedig ar y pedair ardal ddaearyddol, a phob ardal â Chydlynydd Gofal. Er mwyn cyflawni hyn, daethpwyd â dau gydlynydd gofal cartref i ymuno â Chydlynwyr Gofal y Gwasanaeth Galluogi. Roedd pob cydlynydd yn gyfrifol am y staff galluogi yn ei ‘patsh’ hwy yn ogystal â’r ddarpariaeth Rhyddhau i Adfer ac Asesu yn dilyn rhyddhau o’r ysbyty, y cysylltiad â’r darparwyr Gofal Cartref a oedd yn darparu’r gwasanaeth yn y ‘patsh’ hwnnw ac anghenion “pontio” gofal tymor hir unigolion a aseswyd fel rhai y dylid eu blaenoriaethu. Roedd y Cydlynydd a oedd yn gweithio gyda Thîm Brysbennu Porth Gofal yn parhau i ganolbwyntio ar y sawl oedd yn cael eu

rhyddhau o ysbytai ac atgyfeiriadau o'r gymuned wrth baratoi ar gyfer eu dyrannu i Gydlynwyr pob patsh. Rhennir Cydlynydd sydd yn darparu pwynt cyswllt i ddarparwyr sydd wedi'u comisiynu ar gyfer ymholiadau, pryderon a phroblemau ac er mwyn cynnal adroddiadau dyddiol ar gyfer y darparwyr gwasanaeth drwy gydol cyfnod Covid. Roedd Cydlynydd Arweiniol Gofal Cartref yn gallu canolbwyntio wedyn ar y ceisiadau dyddiol am wasanaeth, y broses dendro, gan chwilio am ddarparwyr ar gyfer yr anghenion gofal a hysbysebwyd a monitro'r oriau y cyflenwyd y gwasanaeth yn ogystal â hwyluso'r broses o ddiweddaru'r rhestr aros.

3. Y Gwasanaeth Galluogi yw'r corff sy'n cyflogi o fewn yr Awdurdod Lleol ar gyfer peilot gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ceredigion, ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth yn yr adran Frysbennu ym Mhorth Gofal, gan nodi achosion addas lle gall gweithiwr a rennir gynorthwyo gyda thasgau gofal cymdeithasol a gofal iechyd mewn un ymweliad â'r cartref dros gyfnod byr o ymyrraeth. Mae'r aelodau hyn o staff bellach yn cael hyfforddiant dwys a byddant yn cael eu rhoi ar waith ym mis Medi hyd at ddiwedd Mawrth yn y lle cyntaf.
4. Mae'r Fframwaith Gofal Cartref ar fin cael ei aildendro a chytunwyd cynnal ffrwd gwaith penodol gyda'r Gwasanaeth Comisiynu corfforaethol a fydd yn cael ei arwain gan Arwyn Morris a George Ryley, gyda chymorth ychwanegol gan Duncan Hall, Ywain ap Dylan a Grŵp Gorchwyl a Gorffen bach. Mae dadansoddiad pellach i'w gynnal o'r farchnad gofal cartref er mwyn bod yn sail i ddatblygiad y manyleb nesaf y gwasanaeth cyn aildendro, gan ystyried adroddiadau Llywodraeth Cymru yn 2020 ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, Cost Gofal, Comisiynu Gofal Cartref yn Seiliedig ar Ganlyniadau a thystiolaeth ehangach Awdurdodau Lleol ledled Cymru.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

1 Gwaethygodd sefyllfa'r farchnad Gofal cartref yng Ngheredigion yn gyflym ac yn arwyddocaol dros gyfnod yr haf. Mae hwn yn ddarlun sy'n cael ei atgynhyrchu hefyd ar draws y rhanbarth, Cymru a'r DU. Mae darparwyr gofal cartref i gyd yn nodi iddynt golli staff sy'n effeithio ar argaeledd gweithlu sydd wedi'i hyfforddi ac wedi cymhwyso. Mae darparwyr yn gyffredinol yn nodi eu bod yn wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio ac yn nodi mai ychydig iawn o ymateb sydd yn dilyn ymgyrchoedd recriwtio niferus. Mae staff sydd wedi bod yn y maes ers amser maith yn gadael y diwydiant ac nid oes unrhyw staff newydd yn cael eu denu i'r diwydiant. Mae staff yn dweud eu bod wedi blino'n lân yn gorfforol ac yn feddyliol yn sgil gofynion y pandemig, maent yn sôn hefyd am y pwysau ar eu teuluoedd, y cydbwysedd bywyd gwaith, natur anghymdeithasol ac unig y gwaith, y telerau a'r amodau ar hyn o bryd a'u teimladau wrth feddwl am wynebu gaeaf hir arall.

2 Oherwydd y pwysau cynyddol hyn ar ddarparwyr gofal cartref, dywedodd llawer nad oeddent yn gallu cymryd pecynnau gofal newydd oddi ar y rhestr aros, gan eu bod yn cael anhawster i gynnal yr ymrwymiadau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Hyd yn oed pan ddaw pecyn gofal i ben yn naturiol, mae darparwyr wedi dod yn gyndyn i lenwi'r bwlch, gan nodi'r risgiau sydd o ran cyflenwi a hefyd o ran cynaliadwyedd y busnes. O ran y rhai sy'n cytuno i dderbyn pecynnau gofal ychwanegol, yr unig ffordd y mae hyn yn bosibl yn aml yw o ganlyniad i newid amserau ymweld ag unigolion er mwyn sicrhau bod bwlch ar gyfer ffitio achos newydd i mewn ar lwybr ymweld. Mae hyn yn golygu ansefydlogrwydd i ddefnyddwyr y gwasanaeth, i'r staff a'u teuluoedd. Gall hefyd olygu bod pecyn yn cael ei ddychwelyd oherwydd bod angen mwy o fewnbwn neu oherwydd pellterau teithio. O ganlyniad i'r ffaith bod mwy o staff yn ymadael ag asiantaethau, mae darparwyr gofal cartref yn adolygu eu llwybrau daearyddol, nifer y milltiroedd a faint mae hi'n ei gymryd i fynd o un man i'r llall, nifer y staff sydd ei angen a chymhlethdod y gofynion corfforol a meddyliol a ddaw i'w sylw. Dros gyfnod yr haf, mae nifer sylweddol wedi bod yn rhoi rhybudd i Gyngor Sir Ceredigion eu bod yn bwriadu dychwelyd pecynnau gofal, gall y rhain fod â rhybudd o 28 diwrnod, ond yn fwyfwy oherwydd y pwysau ar gapasiti staff, gallant fod bron yn syth. Mae hwn yn ddarlun arwyddocaol sydd i'w weld yn yr un modd ar draws ein hawdurdodau cyfagos.

3 Yn yr achosion hyn, cyn gynted ag y derbynnir rhybudd, cynhelir adolygiad o'r pecyn gofal a'r cynllun wrth gefn rhag ofn na fydd modd dod o hyd i ddarparwr i gymryd lle'r un sy'n gadael. Yna mae'n cael ei ailhysbysebu ar E-dendro a gofynnir i bob darparwr ystyried y mater. Mewn achosion cymhleth cynhelir cyfarfod traws adrannol er mwyn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael i gynnig gofal yn y cartref, neu ar gyfer lleoliad byr dymor os nad yw gofal cartref yn hyfyw ac yn ddiogel. Mae hwn yn benderfyniad anodd i bawb sydd ynghlwm â'r mater, ond diogelwch yr unigolyn sydd bwysicaf.

4 Ym mhob achos, bydd y Gwasanaeth Galluogi yn ceisio darparu cymaint o'r 'pecynnau gofal tymor hir hyn a ddychwelwyd' ar gyfer galwadau gan un person, lle bo capasiti yn caniatáu, gan geisio cydbwyso'r angen i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb i'r agwedd Galluogi , h.y gweithio gydag unigolion i'w cael yn ôl i fod yn annibynnol cyn gynted â phosibl, yn dilyn cyfnod o afiechyd, yn ogystal â'r ymateb cyflym i achosion o unigolion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Gwelodd y Gwasanaeth Galluogi y llwyth gwaith yn dyblu mewn mater o wythnosau yn yr haf, ac mae'r ganran o ofal tymor hir yn awr yn fwy na nifer yr achosion ailalluogi craidd.

5 Mae misoedd yr haf wedi gweld y galw am ofal cartref a'r rhestr aros ar lefel nas gwelwyd ei thebyg. Mae'r duedd wedi bod yn un sy'n cynyddu'n barhaus, mewn modd didrugaredd, mae anghenion gofal yn cynyddu yn dilyn Covid-19, mae pobl yn gyffredinol yn salach neu wedi ymdopi ar eu pennau eu hunain am fwy o amser ac mae angen mwy o gymorth arnynt o fewn y gymuned ac mae atgyfeiriadau ar gyfer achosion newydd yn dangos anghenion sydd yn gofyn am ofal ar y pegwn uchaf a hyn o'r cychwyn cyntaf. Mae'r sefyllfa yn cael ei monitro'n ofalus ac adroddir am y sefyllfa yn wythnosol yn y sir, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

6 Bydd gwerthusiad o opsiwn y Gwasanaeth Galluogi ar estyniad a helaethiad tymor hir y gwasanaeth yn cael ei gwblhau ddechrau mis Medi, i'w ystyried o fewn y model trawsnewid Gydol Oes a Llesiant yn unol â'r cynllun.

7 Yn y cyfamser, yn y cyfnod byr i ganolig, o ganlyniad i'r sefyllfa sy'n gwaethygu'n gyflym i ddarparwyr, ddiwedd Awst, cytunodd y Grŵp Arweiniol ddod â chynllunio recriwitio ymlaen er mwyn ceisio penodi staff Galluogi ychwanegol rhwng mis Medi a mis Tachwedd, er mwyn gosod hynny yn erbyn yr effaith a'r pwysau ar y tîm presennol. Gwneir hyn er mwyn ceisio lliniaru tuag i lawr ac anelu at sefydlogi y niferoedd cynyddol sydd ar y rhestr aros a'r galw am gymorth gofal hir dymor. Dim ond drwy adeiladu capasiti cynyddrannol ychwanegol yn fewnol y gellir mynd i'r afael â hyn pan fydd pwysau ar y gwasanaeth yn ystod y gaeaf sydd ar ddod.

8 Mae'r gwaith o gynnal dadansoddiad o'r heriau sy'n wynebu pob un o'r Darparwyr Gofal Cartref o ran recriwtio a chadw staff wedi dechrau ar y cyd â Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ofal Cartref sy'n cyfarfod o'r newydd.

9 Er bod siroedd unigol yn wynebu pwysau gwahanol o ran darpariaeth cymunedol, erbyn hyn mae'r heriau ehangach o ran recriwtio a chadw staff sy'n wynebu pob darparwr gofal cartref yn ystod y cyfnod Adfer yn dilyn Covid yn heriau sy'n bodoli ym mhob man. Bydd angen ymdrechion cyflym iawn a mentrau newydd ar draws yr holl sectorau. Disgwylir datganiad gan y Gweinidog yn yr hydref.

| | |
|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL :** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**<br>**NADDO**<br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** |

**ARGYMHELLIAD/**
**ARGYMHELLION: Argymhellir bod y pwyllgor yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth**

**Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Gofynnodd y Cadeirydd am yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth gofal cartref ac er mwyn cymeradwyo'r adroddiad.**

**Enw Cyswllt: Donna Pritchard**

**Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal**

**Dyddiad yr Adroddiad: 7 Medi 2021**

**Acronymau:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion a'r gwasanaethau a ddarperir

# Adroddiad i'r Pwyllgor Cymunedau Iachach

Dyddiad y Cyfarfod: 6 Hydref 2021

**Pwrpas**

Rhoi braslun o'r sefyllfa yng Ngheredigion, y gwasanaethau a ddarperir, a data oddi wrth asiantaethau partner.

**Y Polisi Cenedlaethol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 (Diwygiwyd mewn Ymateb i Covid-19) gydag amcanion allweddol sy'n cael eu hadrodd bob chwarter ac yn rhanbarthol drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal.

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-01/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-camddefnyddio-sylweddau-2019-i-2022.pdf

Pwyslais y gwaith a'r cynllun yw:

- Atal Niwed
- Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad
- Cefnogi a diogelu teuluoedd
- Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi

**Y Darlun Cenedlaethol**

Nid yw'n gwbl sicr faint o oedolion sy'n camddefnyddio sylweddau ond mae'r ganolfan Troseddau a Chyfiawnder yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dweud am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020:

"Parhaodd y defnydd cyffredinol o gyffuriau yn sefydlog gydag oddeutu **1 o bob 11 oedolyn** rhwng 16 a 59 oed yn cymryd cyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (tua 9.4%). Fodd bynnag, roedd yna wahaniaeth rhwng y grwpiau oedran. Roedd defnyddio cyffuriau yn llawer mwy cyffredin ymhlith oedolion iau er, unwaith eto, roedd cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed a oedd yn cymryd cyffuriau yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (tua 21%)."

Mae cydnabyddiaeth gynyddol o’r niwed sylweddol y mae alcohol yn gallu ei achosi i iechyd. Yng Nghymru, mae 15 y cant o'r holl dderbyniadau i ysbytai yn deillio o feddwi ar alcohol. Mae'r data diweddaraf ar dderbyniadau ysbytai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (2016/17) yn dangos bod cleifion lle'r oedd alcohol yn ffactor sylfaenol, neu wedi peri iddynt fynd i’r ysbyty, wedi cymryd dros 14,000 o ddiwrnodau gwely. Roedd hyn ar gost o dros £6.1 miliwn y flwyddyn i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer dim ond trin cleifion preswyl.

## Data am Iechyd Lleol yng Ngheredigion

Amcangyfrif o ba mor gyffredin y mae ffyrdd o fyw ac ymddygiad; nifer a chanran; pawb 16+ oed yng nghlystyrau meddygon teulu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2016-18

| Enw’r Clwstwr | Poblogaeth 16+ oed | Smygu | Yfed yn fwy na’r canllawiau | Pwysau Iach | Canllawiau Gweithgarwch Corfforol | Bwyta 5 y dydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ceredigion | 39,658 | 15.5% | 19.9% | 45.4% | 57.2% | 24.6% |
| De Ceredigion | 40,927 | 17.2% | 19.5% | 37.9% | 51.7% | 22.7% |

## Gwasanaethau yng Ngheredigion

Y prif wasanaethau yng Ngheredigion yw Tîm Cymunedol Cyffuriau ac Alcohol Hywel Dda, Nyrsys Cyswllt Alcohol Hywel Dda, Barod (Elusen Camddefnyddio Sylweddau sy'n cael ei hariannu i ddarparu gwasanaethau i oedolion a phobl ifanc) a Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Cyngor Ceredigion. Mae'r holl dimau hyn yn cydweithio ac yn cwrdd yn wythnosol i sicrhau bod y cymorth yn cyd-gysylltu ac yn briodol. Rydym yn ffodus iawn o gael gwaith partneriaeth cryf fel hyn rhwng y gwahanol dimau. Hefyd mae grwpiau cymorth gwirfoddol ar gael - Alcoholics Anonymous (AA) a Narcotics Anonymous (NA).

Info Base Cymru- 2019-2020 Hywel Dda Ceredigion

| Nifer yr asesiadau am gamddefnydd alcohol | Nifer yr unigolion a aseswyd am gamddefnydd alcohol | Cyfradd camddefnydd alcohol fesul 100,000 o bobl | Nifer yr asesiadau am gamddefnydd cyffuriau | Nifer yr unigolion a aseswyd am gamddefnydd cyffuriau | Cyfradd camddefnydd alcohol fesul 100,000 o bobl |
|---|---|---|---|---|---|
| 382 | 289 | 398 | 355 | 270 | 371 |

Barod

| Nifer yr atgyfeiriadau | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn | DDAS Cyffredinol | DDAS Cyfiawnder Ieuenctid | Choices (Pobl Ifanc) |
| 2020 - 2021 | 431 | 143 | 41 |
| 2019 - 2020 | 520 | 157 | 100 |
| 2018 - 2019 | 491 | 131 | 62 |
| 2017 – 2018 | 472 | 106 | 52 |
| 2016 – 2017 | 442 | 95 | 55 |

| Nifer yr asesiadau (pobl yn bresennol yno) | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn | DDAS Cyffredinol | DDAS Cyfiawnder Ieuenctid | Choices |
| 2020 - 2021 | 311 | 87 | 30 |
| 2019 - 2020 | 387 | 109 | 83 |
| 2018 - 2019 | 366 | 71 | 53 |
| 2017 – 2018 | 339 | 62 | 44 |
| 2016 – 2017 | 299 | 60 | 45 |

Achosion gerbron Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Cyngor Sir Ceredigion

| Chwarter 1af | 2il Chwarter | 3ydd Chwarter | 4ydd Chwarter | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2020/21 - 22** | **2020/21 - 17** | **2020/21 – 6** | **2020/21 - 17** | **62** |
| 2019/20 - 21 | 2019/20 - 24 | 2019/20 –17 | 2019/20 - 25 | 87 |
| 2018/19 - 15 | 2018/19 – 19 | 2018/19 - 25 | 2018/19 - 15 | 74 |
| 2017/18 – 15 | 2017/18 – 21 | 2017/18 - 17 | 2017/18 - 22 | 74 |
| 2016/17 – 10 | 2016/17 - 22 | 2016/17 - 15 | 2016/17 - 32 | 79 |
| 2015/16 – 12 | 2015/16 - 20 | 2015/16 - 14 | 2015/16 - 25 | 71 |
| 2014/15 – 20 | 2014/15 - 25 | 2014/15 - 24 | 2014/15 - 25 | 94 |

Mae Cyngor Ceredigion yn ariannu gwasanaethau, yn darparu cymorth gofal cymdeithasol i oedolion ac asesiadau ar gyfer eu lleoli mewn canolfannau adsefydlu.

**<u>Yr Heddlu - mynd i'r afael â chyflenwadau</u>**

Cofnododd Heddlu Dyfed-Powys 205 yn fwy o droseddau cyffuriau yn 2018-19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond roedd yr achosion o feddiant cyffuriau yn is yn ystod y cyfnod hwn na'r nifer a gofnodwyd yn 2014-15 a 2015-16, ond yn uwch o gymharu â 2016-17. Roedd troseddau masnachu mewn cyffuriau ar eu huchaf o'u cymharu â'r pedair blynedd blaenorol.

Cofnodwyd y nifer uchaf o droseddau cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin (34%), ac yna Powys (25%), Sir Benfro (25%) a Cheredigion (16%). Nid yw hyn yn syndod gan fod y ddwy ardal hyn wedi profi'r effaith fwyaf yn sgil grwpiau troseddu cyfundrefnol a gangiau cyffuriau sy'n defnyddio llinellau cyffuriau traws-sirol; mae gweithgarwch hirfaith wedi bod yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn.


*Crynodeb Sirol 2018-19* (Heddlu Dyfed-Powys, 2019)

| Territory | No. Offences | Per 1,000 Pop |
|---|---|---|
| Carmarthenshire | 679 | 3.893 |
| Ceredigion | 309 | 3.122 |
| Pembrokeshire | 497 | 4.305 |
| Powys | 527 | 4.149 |
| **Total** | **2,012** | **3.900** |

**Troseddau meddiant cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys**

Cofnodwyd 1667 o droseddau meddiant cyffuriau gan Heddlu Dyfed-Powys yn ystod 2018-19. Roedd y troseddwyr yn ddynion gan mwyaf (82%) gydag oedran canolrifol o 29 oed. Y prif gyffur a atafaelwyd oedd canabis llysieuol (67%) gyda chocên a benzos yn cael eu hatafaelu 6% o'r amser yn achos y ddau. Cafodd 65% o gyffuriau eu hatafaelu mewn man cyhoeddus neu ar y briffordd, 28% mewn annedd, 5% mewn tafarndai neu glybiau nos a 2% mewn sefydliadau addysgol.

*Y mathau o gyffuriau a atafaelwyd gan Heddlu Dyfed-Powys 2018-19* (Heddlu Dyfed-Powys, 2019)




Digwyddodd y niferau mwyaf o droseddau meddiant cyffuriau yng Nghanol Aberystwyth tra bod wardiau Elli, Rhydaman a Thŷ-isha â nifer uchel hefyd. Er bod rhai o'r wardiau hyn yn ardaloedd o amddifadedd nodedig, dylid ystyried poblogaeth y myfyrwyr yn Aberystwyth.


*Troseddau meddiant cyffuriau – Y 5 ward uchaf* (Heddlu Dyfed-Powys, 2019)

| County | Beat | Vol. |
|---|---|---|
| Ceredigion | Aberystwyth Central | 74 |
| Carmarthenshire | Elli | 65 |
| Carmarthenshire | Ammanford | 62 |
| Carmarthenshire | Tyisha | 44 |
| Pembrokeshire | Priory | 43 |

**Troseddau Masnachu Cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys**


Roedd 345 o droseddau masnachu cyffuriau yn ardal Dyfed Powys yn ystod 2018-19, sef cynnydd ar y blynyddoedd blaenorol (243 yn 2017-18, 207 yn 2016-17). Roedd 84% o droseddwyr yn ddynion a'r oedran canolrifol oedd 25. O ran y cyffuriau a oedd yn cael eu masnachu ac a atafaelwyd gan Heddlu Dyfed-Powys, roedd 30% yn ganabis llysieuol, 15% yn blanhigion canabis tra bod heroin a chocên yn cynrychioli 11% o'r cyffuriau a atafaelwyd.

*Y mathau o gyffuriau oedd yn cael eu masnachu ac a atafaelwyd gan Heddlu Dyfed-Powys* (Heddlu Dyfed-Powys, 2019)




# Marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau, fesul sir


**Ffigwr 19.** Lledaeniad daearyddol y marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yn ardal Hywel Dda 2018-2020




- Yn 2018 roedd 9 marwolaeth yn Sir Gaerfyrddin, tair yng Ngheredigion a phump yn Sir Benfro.
- Yn 2019, gostyngodd nifer y marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin i 6 tra bod Ceredigion wedi cynyddu i 7. Arhosodd Sir Benfro yn sefydlog ar bum marwolaeth.
- Fodd bynnag, yn 2020 mae tuedd amlwg o gynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau gydag 8 yng Ngheredigion, 10 yng Nghaerfyrddin ac 11 yn Sir Benfro

# Gorddosau sydd ddim yn angheuol

**Ffigwr 21.** Lledaeniad daearyddol y gorddosau sydd ddim yn angheuol, Mai 2020- Ebrill 2021




- Riportiwyd 50 o orddosau nad oedd yn angheuol gan Heddlu DP yn ystod y cyfnod hwn
- Yn wahanol i'r marwolaethau cyffuriau, maen nhw wedi'u gwasgaru'n fwy ar draws y tair sir
- Yng Ngheredigion riportiwyd 14 gorddos nad oedd yn angheuol, sef 28% o'r holl achosion
- Bu 16 gorddos yn Sir Benfro (32%)
- Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer uchaf o orddosau, sef 20 (40%)
- Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r ffigurau hyn ond yn cynnwys yr achosion a adroddwyd gan Heddlu DP felly gall y ffigwr gwirioneddol fod llawer yn uwch
- Mae hyn eto'n pwysleisio'r angen am brotocol rhannu gwybodaeth parthed gorddosau sydd ddim yn angheuol

# Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion a'r gwasanaethau a ddarperir

John Callow
Rheolwr Corfforaethol
Camddefnyddio Sylweddau

# Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 (Diwygiwyd mewn Ymateb i Covid-19)

- Pwyslais y gwaith a'r cynllun yw:
- Atal Niwed
- Cymorth i gamddefnyddwyr sylweddau wella eu hiechyd a chynorthwyo a chynnal eu hadferiad
- Cefnogi a diogelu teuluoedd
- Mynd i'r afael ag argaeledd alcohol a diogelu unigolion a chymunedau drwy weithgareddau gorfodi

# Y Darlun Cenedlaethol

Yn ôl y ganolfan Troseddau a Chyfiawnder yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020:

- "Parhaodd y defnydd cyffredinol o gyffuriau yn sefydlog gydag oddeutu **1 o bob 11 oedolyn** rhwng 16 a 59 oed yn cymryd cyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (**tua 9.4%**). Fodd bynnag, roedd yna wahaniaeth rhwng y grwpiau oedran. Roedd defnyddio cyffuriau yn llawer mwy cyffredin ymhlith oedolion iau er, unwaith eto, roedd cyfran y bobl ifanc 16 i 24 oed a oedd yn cymryd cyffuriau yn debyg i'r flwyddyn flaenorol (**tua 21%**)."

# Alcohol


- **Mae cydnabyddiaeth gynyddol o’r niwed sylweddol y mae alcohol yn gallu ei achosi i iechyd.**
- **Yng Nghymru, mae 15 y cant o'r holl dderbyniadau i ysbytai yn deillio o feddwi ar alcohol.**
- **Mae'r data ar dderbyniadau ysbytai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (2016/17) yn dangos bod cleifion lle'r oedd alcohol yn ffactor sylfaenol, neu wedi peri iddynt fynd i’r ysbyty, wedi cymryd dros 14,000 o ddiwrnodau gwely.**
- **Roedd hyn ar gost o dros £6.1 miliwn y flwyddyn i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer dim ond trin cleifion preswyl.**

# Ystadegau meddygon Ceredigion

Amcangyfrif o ba mor gyffredin y mae ffyrdd o fyw ac ymddygiad; nifer a chanran; pawb 16+ oed yng nghlystyrau meddygon teulu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2016-18

| Enw'r Clwstwr | Poblogaeth 16+ oed | Smygu | Yfed yn fwy na'r canllawiau | Pwysau Iach | Canllawiau Gweithgarwch Corfforol | Bwyta 5 y dydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Ceredigion | 39,658 | 15.5% | 19.9% | 45.4% | 57.2% | 24.6% |
| De Ceredigion | 40,927 | 17.2% | 19.5% | 37.9% | 51.7% | 22.7% |

# Gwasanaethau yng Ngheredigion




Darperir gwasanaethau gan Gyngor Sir Ceredigion, Awdurdod Iechyd Hywel Dda a Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS), ac mae pob atgyfeiriad i'r gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau i Oedolion yn mynd drwy **DDAS - 0330 363 9997**.

# Info Base Cymru- 2019-2020 Hywel Dda Ceredigion

| Nifer yr asesiadau am gamddefnydd alcohol | Nifer yr unigolion a aseswyd am gamddefnydd alcohol | Cyfradd camddefnydd alcohol fesul 100,000 o bobl | Nifer yr asesiadau am gamddefnydd cyffuriau | Nifer yr unigolion a aseswyd am gamddefnydd cyffuriau | Cyfradd camddefnydd alcohol fesul 100,000 o bobl |
|---|---|---|---|---|---|
| **382** | 289 | 398 | 355 | 270 | 371 |

# Barod

| Nifer yr asesiadau (pobl yn bresennol yno) | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | DDAS Cyffredinol | DDAS Cyfiawnder Ieuenctid | Choices |
| **2020 - 2021** | 311 | 87 | 30 |
| **2019 - 2020** | 387 | 109 | 83 |
| **2018 - 2019** | 366 | 71 | 53 |
| **2017 – 2018** | 339 | 62 | 44 |
| **2016 – 2017** | 299 | 60 | 45 |

# Achosion gerbron Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Cyngor Sir Ceredigion

| 1st Quarter | 2nd Quarter | 3rd Quarter | 4th Quarter | Total |
|---|---|---|---|---|
| **2020/21 - 22** | **2020/21 - 17** | **2020/21 – 6** | **2020/21 - 17** | **62** |
| 2019/20 - 21 | 2019/20 - 24 | 2019/20 –17 | 2019/20 - 25 | 87 |
| 2018/19 - 15 | 2018/19 – 19 | 2018/19 - 25 | 2018/19 - 15 | 74 |
| 2017/18 – 15 | 2017/18 – 21 | 2017/18 - 17 | 2017/18 - 22 | 74 |
| 2016/17 – 10 | 2016/17 - 22 | 2016/17 - 15 | 2016/17 - 32 | 79 |
| 2015/16 – 12 | 2015/16 - 20 | 2015/16 - 14 | 2015/16 - 25 | 71 |
| 2014/15 – 20 | 2014/15 - 25 | 2014/15 - 24 | 2014/15 - 25 | 94 |


# Yr Heddlu - mynd i'r afael â chyflenwadau

| Territory | No. Offences | Per 1,000 Pop |
|---|---|---|
| Carmarthenshire | 679 | 3.893 |
| Ceredigion | 309 | 3.122 |
| Pembrokeshire | 497 | 4.305 |
| Powys | 527 | 4.149 |
| **Total** | **2,012** | **3.900** |

*Crynodeb Sirol 2018-19* (Heddlu Dyfed-Powys, 2019)

- Cofnododd Heddlu Dyfed-Powys 205 yn fwy o droseddau cyffuriau yn 2018-19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ond roedd yr achosion o feddiant cyffuriau yn is yn ystod y cyfnod hwn na'r nifer a gofnodwyd yn 2014-15 a 2015-16, ond yn uwch o gymharu â 2016-17. Roedd troseddau masnachu mewn cyffuriau ar eu huchaf o'u cymharu â'r pedair blynedd blaenorol.
- Cofnodwyd y nifer uchaf o droseddau cyffredinol yn Sir Gaerfyrddin (34%), ac yna Powys (25%), Sir Benfro (25%) a Cheredigion (16%). Nid yw hyn yn syndod gan fod y ddwy ardal hyn wedi profi'r effaith fwyaf yn sgil grwpiau troseddu cyfundrefnol a gangiau cyffuriau sy'n defnyddio llinellau cyffuriau traws-sirol; mae gweithgarwch hirfaith wedi bod yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn.

# Troseddau meddiant cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys




# Troseddau Masnachu Cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys

Roedd 345 o droseddau masnachu cyffuriau yn ardal Dyfed Powys yn ystod 2018-19


Roedd hyn yn gynnydd ar y blynyddoedd blaenorol (243 yn 2017-18, 207 yn 2016-17)

Roedd 84% o droseddwyr yn ddynion a’r oedran canolrifol oedd 25.



# Marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau, fesul sir


**Ffigwr 19.** Lledaeniad daearyddol y marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yn ardal Hywel Dda 2018-2020




- Yn 2018 roedd 9 marwolaeth yn Sir Gaerfyrddin, tair yng Ngheredigion a phump yn Sir Benfro.
- Yn 2019, gostyngodd nifer y marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin i 6 tra bod Ceredigion wedi cynyddu i 7. Arhosodd Sir Benfro yn sefydlog ar bum marwolaeth.
- Fodd bynnag, yn 2020 mae tuedd amlwg o gynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau gydag 8 yng Ngheredigion, 10 yng Nghaerfyrddin ac 11 yn Sir Benfro

# Gorddosau sydd ddim yn angheuol

**Ffigwr 21.** Lledaeniad daearyddol y gorddosau sydd ddim yn angheuol, Mai 2020- Ebrill 2021




- Riportiwyd 50 o orddosau nad oedd yn angheuol gan Heddlu DP yn ystod y cyfnod hwn
- Yn wahanol i'r marwolaethau cyffuriau, maen nhw wedi'u gwasgaru'n fwy ar draws y tair sir
- Yng Ngheredigion riportiwyd 14 gorddos nad oedd yn angheuol, sef 28% o'r holl achosion
- Bu 16 gorddos yn Sir Benfro (32%)
- Sir Gaerfyrddin oedd â'r nifer uchaf o orddosau, sef 20 (40%)
- Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae'r ffigurau hyn ond yn cynnwys yr achosion a adroddwyd gan Heddlu DP felly gall y ffigwr gwirioneddol fod llawer yn uwch
- Mae hyn eto'n pwysleisio'r angen am brotocol rhannu gwybodaeth parthed gorddosau sydd ddim yn angheuol

Eitem Agenda 6

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **DYDDIAD:** | **6 Hydref 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Siambr y Cyngor, Penmorfa** |
| **TEITL:** | **Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal (Plant ac Oedolion)**<br><br>**ADRODDIAD RHEOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETH ADOLYGU ANNIBYNNOL**<br>**Chwarter 4 2020 - 2021** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Monitro cynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal drwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod pedwerydd chwarter 2020/2021. Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol. |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | I sicrhau bod yr Awdurdod Lleol a'r Aelodau yn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel Rhieni Corfforaethol. |

**CEFNDIR:**

Atodir Adroddiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 4 2020/2021.

Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/ person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/ person ifanc i nodi pobl eraill berthnasol er mwyn iddynt roi cyngor cyfreithiol/ cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/ person ifanc a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Amlasiantaethol ‘Plant sy'n Derbyn Gofal’ sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn.

Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diwylliant, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter.

**CRYNODEB O’R PRIF BWYNTIAU:**

- Ar ddiwedd y Chwarter hwn, sef Chwarter 4, ar 31 Mawrth 2021, roedd 85 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn gynnydd o ran nifer y plant sy'n derbyn gofal. Ar ddiwedd Chwarter 3 roedd 79 o blant yn derbyn gofal.
- Adolygwyd 58 o blant yn y chwarter hwn. Adolygwyd 89.7% o fewn yr amserlen statudol.
- Dychwelwyd un plentyn adref i'r teulu yn ystod y chwarter hwn, o'i gymharu â phedwar plentyn yn Chwarter 3.
- Roedd y ddarpariaeth o ran lleoli’r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn yn amrywio o 20 a leolwyd mewn Darpariaeth Gofal Maeth Awdurdod Lleol, 12 a leolwyd gyda theulu, 9 a leolwyd gyda rhieni, 8 mewn Darpariaeth Gofal Maeth Annibynnol, 3 mewn gofal preswyl a 3 gyda gofalwyr sy'n berthnasau.
- O blith y plant a adolygwyd yn y chwarter hwn, cafodd 87.9% ohonynt ymweliad statudol.
- Roedd 32 o blant a adolygwyd yn destun Gorchymyn Gofal Llawn, roedd 16 yn destun Gorchymyn Gofal Dros Dro, 1 yn destun Gorchymyn Lleoli ac roedd 9 o dan statws cyfreithiol Adran 76.
- Cofnodwyd bod 100% o'r cynlluniau gofal a chymorth yn diwallu anghenion y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn y chwarter hwn.
- Nifer a chanran y plant (o ddealltwriaeth ddigonol) a fu’n ymwneud â'u hadolygiad neu yr ymgynghorwyd â nhw, oedd 100%.
- Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth, oedd 100%.
- Canran y bobl ifanc a oedd yn gymwys i gael Cynllun Llwybr ac sydd gydag un ar waith, ac ymgynghorydd personol i'w cefnogi, yw 100%.
- Cwblhawyd 25 o Adolygiadau Cynllun Llwybr yn y chwarter hwn. Cwblhawyd 80% o fewn yr amserlen.
- Dangosodd 96% o'r Adolygiadau a wnaed fod y Cynlluniau Llwybr a oedd ar waith yn diwallu anghenion y bobl ifanc.
- Roedd 80% o'r Adolygiadau Cynllun Llwybr a wnaed naill ai’n cynnwys cynrychiolaeth o farn y person yn yr adolygiad neu roedd y person ifanc yn bresennol yn ei adolygiad.

| | |
|---|---|
| **A wnaed Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam** | Naddo |

***Crynodeb:***
Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n rheolaidd ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **Hirdymor:** | Cael cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor at y dyfodol. |
| | **Integreiddio:** | Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt. |
| | **Cydweithio:** | Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod. |
| | **Cynnwys:** | Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a chael eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. |
| | **Atal:** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu. |

**ARGYMHELLIAD:**
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol.

**RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Siân Howys** |
| **Swydd:** | **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **24 Mehefin 2021** |
| **Acronymau:** | IRO – Swyddog Adolygu Annibynnol<br>LAC – Plant sy'n Derbyn Gofal<br>CAFCASS – Gwasanaeth Cynghori a Chymorth i Blant a Theuluoedd<br>APR – Cofnodion Gweithredu a Chynnydd<br>PEP – Cynllun Addysg Bersonol<br>PI – Dangosyddion Perfformiad<br>CAMHS – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed<br>NEET – Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant<br>PRU – Yr Uned Cyfeirio Disgyblion |

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Gwasanaeth Diogelu

## Adroddiad Rheoli Perfformiad Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

## Chwarter 4: 1af Ionawr 2021 – 31ain Mawrth 2021

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

| CYNNWYS | | |
|---|---|---|
| **TUDALEN:** | | |
| **ADRAN UN:** | **CYFLWYNIAD** | **3** |
| **ADRAN DAU:** | **CYNLLUNIO GOFAL** | **4** |
| **ADRAN TRI:** | **YMGYNGHORI A CHYFRANOGI** | **22** |
| **ADRAN PEDWAR:** | **PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU** | **25** |
| **ADRAN PUMP:** | **GWERTHUSO** | **25** |
| **ADRAN CHWECH:** | **CYNLLUN LLWYBR** | **26** |
| **ADRAN SAITH:** | **PRESWYL / (PLANT NAD YDYNT YN DERBYN GOFAL)** | **28** |
| **ADRAN WYTH:** | **SEIBIANT RHEOLAIDD** | **28** |
| **ADRAN NAW:** | **SEIBIANNAU BYR** | **28** |
| **ADRAN DEG:** | **GOFALWYR MAETH** | **29** |

## ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, pobl sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl a’r plant hynny sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro gaiff eu cwblhau gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

## MEINCNODI

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y mesurau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sy’n gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegir yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a bydd yn tynnu sylw rheolwyr at unrhyw arferion gwael.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol er mwyn cael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc ac, os oes, gallai atgyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Nid oedd angen y cymryd y cam hwn yn unrhyw un o'r cyfarfodydd adolygu yn ystod y cyfnod.

*Ar gyfer unrhyw ymholiad neu sylw, cysylltwch â:*

Elizabeth Upcott
Gwasanaeth Diogelu
Penmorfa,
Aberaeron
SA46 0PA

## ADRAN DAU

## CYNLLUNIO GOFAL

1. **Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 4:**

| Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal | **Cyfanswm** |
|---|---|
| 31ain Rhagfyr 2020 | **79** |
| 31ain Mawrth 2021 | **85** |

2. **Nifer a chanran yr Adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.**

   <u>Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 89.7%</u>


   Adolygwyd 58 o blant o fewn y Chwarter.

- Cynhaliwyd 52 (89.7%) Cyfarfod Adolygu o fewn y gofynion statudol.


- Cynhaliwyd 6 (10.3%) Cyfarfod Adolygu y tu allan i ofynion statudol; roedd y rhesymau a gofnodwyd fel a ganlyn: -

  - Gohiriwyd adolygiad grŵp brodyr a chwiorydd 3 plentyn oherwydd absenoldeb Swyddog Adolygu Annibynnol.
  - Gohiriwyd adolygiad 1 plentyn arall oherwydd argaeledd gweithwyr cymdeithasol.
  - Bu oedi cyn hysbysu bod 2 blentyn arall yn Derbyn Gofal.

| | **Ion-Maw 2021** | **Hyd-Rhag 2020** | **Gorff-Medi 2020** | **Ebrill - Meh 2020** | **Ion - Maw 2020** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter | 58 | 60 | 41 | 62 | 48 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser | 52 | 60 | 38 | 60 | 47 |
| Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu hwnt i'r terfynau amser | 6 | 0 | 3 | 2 | 1 |





## 3. Oed a Rhyw'r Plant a Adolygwyd yn ystod y Chwarter:




## 4. Natur Lleoliadau'r Plant a Adolygwyd yn ystod y Chwarter hwn:

| Math o Leoliad | Yn y Sir | Tu allan i'r Sir | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol | 19 | 1 | 20 |
| Lleoliad â Theulu | 12 | | 12 |
| Wedi'i leoli â Rhieni | 8 | 1 | 9 |
| Gofalwyr Asiantaeth Maethu Annibynnol (AMA) | 2 | 6 | 8 |
| Gofalwyr sy'n Berthnasau | 1 | 2 | 3 |
| Preswyl | | 3 | 3 |
| Preswyl Mam a Baban | | 2 | 2 |
| Gofalwyr Maeth Asiantaeth Maethu Annibynnol ar gyfer Rhiant a Babi (AMA) | 1 | | 1 |
| Mabwysiadu | | | |
| Llety â Chymorth | | | |
| Ysbyty | | | |
| Byw'n Annibynnol | | | |
| | **43** | **15** | **58** |




## 5. Statws Cyfreithiol y Plant a Adolygwyd yn ystod y Chwarter hwn:

| Statws Cyfreithiol y Plant a Adolygwyd | |
|---|---|
| Gorchymyn Gofal Llawn | 32 |
| Gorchymyn Gofal Interim | 16 |
| Gorchymyn Lleoli | 1 |
| Adran 76 | 9 |
| **Cyfanswm** | **58** |




## 6. Y Rhesymau pam fod y Plant a Adolygwyd wedi Gadael Gofal

| Cyfnod | Y nifer sydd wedi gadael gofal | *Y rheswm dros adael gofal* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Mabwysiadu* | *Dychwelyd adref at y teulu* | *'Pan rwyf yn barod'* | *Diddymu'r Gorchymyn Gofal* | *Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol* |
| **1 Ionawr hyd 31 Mawrth 2021** | **4** | 3 | 1 | - | - | - |
| **1 Hydref hyd 31 Rhagfyr 2020** | **6** | 0 | 4 | 1 | 1 | - |
| **1 Gorffennaf hyd 30 Medi 2020** | **7** | 1 | 4 | - | - | 2 |
| **1 Ebrill hyd 30 Mehefin 2020** | **2** | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** | **4** | **9** | **2** | **1** | **3** |




**7. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.**

<u>Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%</u>


- Cofnododd 58 (100.0%) Adolygiad fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwys wedi'i ddyrannu ac yn ymwneud yn weithredol â'r plentyn.

**8. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal o dan adolygiad a gynhaliwyd yn unol â'r terfynau amser gofynnol.**

<u>Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 87.9%</u>

- Cafodd 51 (87.9%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.

- Ni chafodd 7 (12.1%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithwyr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.




**Sylw:** Dyma ganran yr ymweliadau a gynhaliwyd lle gwelwyd plant, ond mewn 7 o'r achosion cynhaliwyd yr ymweliadau stat ond ni chawsant eu cofnodi ar y system.

**9. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr Adolygiad.**

<u>Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 72.7%</u>

- Gwnaethpwyd 11 o leoliadau newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y chwarter hwn; Cofnododd 8 (72.7%) cyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar waith erbyn dyddiad ei (l)leoliad.
- Ar gyfer 1 plentyn a grŵp brodyr a chwiorydd o 2, nid oedd y Cynllun Gofal a Chymorth ar waith yn ôl dyddiad y lleoliad cyntaf; fodd bynnag, roedd y Cynllun Gofal a Chymorth ar waith ar adeg yr adolygiad ar gyfer pob un o'r 3 phlentyn / person ifanc.




- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddariadau i gofnodion Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) 3 phlentyn.

**Sylw:** Bellach cadarnheir bod y Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer pob un o'r 3 phlentyn wedi'i ddiweddaru ers yr adolygiad.


**10. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.**

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%


- Roedd 11 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, cofnododd pob un o'r 11 adolygiad (100.0%) fod Cytundeb Parhad wedi'i gytuno. Mae hyn yn gyson â'r chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd pryderon gan y Swyddog Adolygu Annibynnol mewn 4 (6.9%) adolygiad yn y cyfnod hwn ynghylch cynnydd y Lleoliad / Cynllun Gofal a Chymorth / Cynllun Parhad.


  Dyma oedd natur y pryderon: -
  - Diffyg adnoddau oherwydd y ffaith bod penderfyniad wedi'i wneud bod angen dod o hyd i leoliad amgen ar gyfer 1 person ifanc er mwyn rhoi cyfle iddo/iddi ddatblygu annibyniaeth yn y dyfodol.
  - Oedi wrth ddatblygu Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer 1 person ifanc.
  - Diffyg adnoddau wrth symud ymlaen â'r cynllun Mabwysiadu ar gyfer 1 person ifanc.
  - Mae angen cytuno ar Gynllun Parhad ar gyfer 1 person ifanc arall.



## 11. Hyd yr Amser mewn Gofal:




## 12: Natur y Cynlluniau Parhad:




## 13. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Ofal Seibiant gan rywun heblaw am eu Prif Ofalwyr

- Nododd 0 (0.0%) Adolygiad fod y plentyn / pobl ifanc yn cael gofal seibiant i ffwrdd oddi wrth eu prif ofalwyr.

## 14. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys oedd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.

Targed a bennwyd: 100% Targed a gyflawnwyd 100.0%

- Cofnododd pob un o'r 8 (100.0%) o Bobl Ifanc fod Cynllun Llwybr ar waith a dyrannwyd Ymgynghorydd Personol iddynt.




## 15. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (o oedran a a lefel dealltwriaeth briodol) sy'n deall y rhesymau pam eu bod yn derbyn gofal.

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 39 plentyn / person ifanc oherwydd ystyriwyd nad oedd 19 o'r plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 39 (100%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd, o gymharu â 96.2% yn y chwarter blaenorol. Adroddwyd bod angen rhoi eglurhad pellach i 1 Plentyn.

**16. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) a oedd yn deall eu Cynlluniau Gofal a Chymorth.**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 41 plentyn / person ifanc oherwydd ystyriwyd nad oedd 17 o'r plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Roedd 40 (97.6%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).

- Mewn 1 (2.4%) adolygiad cofnodwyd bod hyn yn aneglur ac yn ddarn o waith a oedd angen ei wneud gyda'r person ifanc.

**17. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud Plant sy'n Derbyn Gofal.**

- Nododd 11 (19.0%) Adolygiad fod newid yn lleoliad plentyn/person ifanc yn ystod y chwarter hwn; mae hyn yn cymharu â 15.0% yn y chwarter blaenorol.

Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

- Symudodd 1 person ifanc o leoliad Rhiant a Phlentyn Gyda'i Gilydd i Leoliad Gofal Maeth Mam a Baban i'w asesu ymhellach.
- Symudodd 2 frawd neu chwaer o Leoliad Gofal Maeth Mam a Baban i Leoliad Preswyl Rhiant a Phlentyn Gyda'i Gilydd i'w hasesu.
- Symudodd 2 frawd neu chwaer o leoliad maethu tymor byr i leoliad maethu hirdymor.
- Symudodd 2 frawd neu chwaer o leoliad maethu tymor byr i leoliad hirdymor â theulu.
- Symudodd 1 person ifanc o Leoliad Maethu Mam a Baban i Leoliad gyda Rhiant.
- Symudodd 1 person ifanc o leoliad brys i leoliad maethu tymor byr.
- Symudodd 1 person ifanc o leoliad tymor byr a oedd yn anaddas i leoliad tymor byr arall.
- Symudodd 1 person ifanc o leoliad preswyl i leoliad preswyl arall yn gynnig Gofal Therapiwtig.

**18 Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal.**

<u>Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%</u>

- Cofnodwyd bod 58 (100.0%) o gynlluniau lleoli/gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc; mae hyn yn gyson â'r chwarter blaenorol. Nododd 6 adolygiad, fodd bynnag, y canlynol: -

- ➢ Daeth yn amlwg yn ystod yr adolygiad ar gyfer grŵp o 2 frawd neu chwaer nad oedd y Contract disgwyliadau yn cael ei gadw mewn perthynas â threfniant cludo, bydd hyn cael ei drafod gyda Rheolwyr.
- ➢ Mae'r lleoliad yn diwallu anghenion i raddau; fodd bynnag, mae lleoliad pellach wedi'i nodi bellach ar gyfer person ifanc i hybu hunanofal a sgiliau byw mewn lleoliad therapiwtig.
- ➢ Person ifanc yn treulio mwy o amser gyda rhiant arall gan fod y rhiant yn gweithio oriau hir.
- ➢ Er bod y lleoliad yn diwallu'r anghenion, mae angen nodi lleoliad maethu hirdymor pellach a fydd yn cynnig lleoliad unigol neu sydd â phlant llawer hŷn yn eu harddegau yn unol ag addasrwydd ar gyfer gofynion parhaus a nodwyd ar gyfer y person ifanc o ran lleoliad.
- ➢ Mae person ifanc yn dal i ddangos ymddygiad pryderus sy'n parhau i gael ei drafod mewn cyfarfodydd bob mis i adolygu lleoliadau.

**19. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn.**

- Nododd 5 (8.6%) Adolygiad bryderon diogelu i'r person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.


**20. Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

- Cadarnhaodd 10 (17.2%) adolygiad fod enw'r person ifanc wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

**21. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol**

<u>Targed a Bennwyd 100%- Targed a gyflawnwyd 94.8%</u>

- Adroddwyd yn eu hadolygiad fod gan 55 (94.8%) Plentyn/Person Ifanc sy’n derbyn gofal asesiad iechyd cyfredol, sy'n cymharu â 100.0% yn y chwarter blaenorol.




**Sylw:** Roedd gan y 3 phlentyn asesiad iechyd wedi'i gwblhau erbyn 19eg Mawrth 2021. Roedd un y tu allan i terfynau amser statudol oherwydd tîm iechyd lletyol plant sy'n derbyn gofal ac roedd 2 oherwydd hysbysiad hwyr o ddod yn blant sy'n derbyn gofal.

**22. Canran y plant a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal**

Targed a bennwyd: Targed 100% a gyflawnwyd 81.8%

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ynghylch y plant / pobl ifanc a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu derbyn i ofal yn ymwneud ag 11 plentyn / person ifanc.

- Cofnododd 9 (81.8%) adolygiad fod y plentyn / person ifanc wedi'i gofrestru gydag ymarferydd deintyddol cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.
- Cofnododd 2 (18.2%) adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc wedi'i gofrestru gydag ymarferydd deintyddol cyn pen 20 diwrnod ar ôl dechrau'r lleoliad

**Sylw:** Ar hyn o bryd nid yw 2 blentyn wedi'u cofrestru gyda'r deintydd a chânt eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ardal.

**********

**Wedi'u cofrestru gyda deintydd**

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 47 o Blant / Pobl Ifanc gan fod 11 o blant / pobl ifanc a gafodd Adolygiad cyntaf i blant sy'n derbyn gofal wedi'u diystyru i gyd-fynd â gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 41 (87.2%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda deintydd. Mae hyn yn cymharu â 94.1% yn y chwarter blaenorol.

- Nid oedd 6 (12.8%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda'r deintydd, roedd pob un o'r plant hyn o dan 2 oed.

**Sylw:** Ni chofrestrwyd 6 o blant yn eu hadolygiad ond mae 4 wedi eu cofrestru wedi hynny a bydd y 2 arall wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ardal.

**23. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl cael eu derbyn i ofal.**

**Wedi cael eu gweld gan ddeintydd**

Mae'r data ar gyfer cael eu gweld gan ddeintydd cyn pen 3 mis ar ôl derbyn gofal yn ymwneud â 10 o blant.

- Cofnododd 6 (60.00%) adolygiad fod y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig cyn pen 3 mis ar ôl dod yn blentyn sy’n derbyn gofal.

- Cofnodwyd nad oedd 4 (40.0%) o blant a phobl ifanc wedi cael gwiriadau deintyddol cyn pen 3 mis ar ôl dod yn blentyn sy’n derbyn gofal.

**Sylw:** Pandemig parhaus Covid19. Nid yw apwyntiadau arferol yn digwydd. 3 Wedi’u cofrestru gyda deintyddion preifat, nid Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ac 1 yn byw y tu allan i'r ardal.

**********


**Wedi cael eu gweld gan ddeintydd**

<u>Targed a Bennwyd 90% - Targed a gyflawnwyd 51.3%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 39 o blant / pobl ifanc gan fod 19 o blant / pobl ifanc o dan 2 oed a / neu'n cael eu Hadolygiadau cyntaf ac fe'u diystyrwyd i gyd-fynd â gofynion Mesurau Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 20 (51.3%) o blant a phobl ifanc wedi cael gwiriad deintyddol yn ystod y 12 mis blaenorol, sy'n cymharu â 73.9% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 19 (48.7%) o blant a phobl ifanc wedi cael gwiriadau deintyddol.




**Sylw:** Pandemig parhaus Covid19. Cysylltodd Tîm Iechyd plant sy'n derbyn gofal â Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i godi pryder nad yw plant sy'n derbyn gofal wedi cael apwyntiadau arferol am fwy na 12 mis. Ymateb gan Wasanaethau Deintyddol Cymunedol yw bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi nad ydyn nhw'n cynnal apwyntiadau arferol, er ei fod yn dweud os ystyrir bod angen unrhyw driniaeth yna gallant ei gwneud. Fe wnaethant nodi, os yw'n ofynnol bod plentyn sy'n derbyn gofal yn cael ei weld, yna gellir cysylltu â'r clinig. Hysbysir yr holl staff, os ydynt yn cael galwad ffôn a bod y plentyn yn derbyn gofal, yna dylid cadw apwyntiad iddo yn y clinig priodol.

## 24. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad

- Mewn 17 (89.5%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi'i gofrestru â darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

- Nododd 2 adolygiadau fod y cam hwn yn parhau i fod heb ei wneud, roedd hwn yn gam y cytunwyd arno gan yr Adolygiad.

**Sylw:** Mae Nyrs Iechyd plant sy'n derbyn gofal wedi dweud bod y 2 blentyn hyn wedi cofrestru gyda meddyg teulu yn ddiweddarach yn ardal eu lleoliad. Roeddent wedi'u cofrestru â meddyg teulu ar adeg yr adolygiad, ond nid oeddent yn lleol i'r leoliad.

**25. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu.**

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd pob un o'r 58 (100.0%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

- Roedd 54 (94.7%) o blant wedi cael eu brechiadau cyfredol.
- Roedd 3 (5.3%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau; y rhesymau a gofnodwyd oedd: -
    - Nododd 2 adolygiad y byddai brechiadau heb eu gwneud yn cael eu gwneud trwy nyrs ysgol/meddyg teulu.
    - Nododd 1 Adolygiad fod angen cwblhau'r brechiadau.

Diystyriwyd 1 adolygiad gan fod y rhiant yn gwrthod caniatáu i'r plentyn gael ei frechu.

**Sylw:** Rydym wedi cael diweddariad diweddar gan Nyrs plant sy'n derbyn gofal; mae un person bellach wedi cael brechiadau oedd heb eu gwneud, mae un yn eu gwrthod ac mae un person ifanc wedi'u cael yn rhannol.

**26. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad / gwasanaeth.**

Targed: 50%

Gwir Berfformiad

- Cofnododd 8 (13.8%) Adolygiad fod plentyn/person ifanc wedi cael ei atgyfeirio at CAMHS, cadarnhawyd mewn 7 Adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn ar gyfer y plentyn/person ifanc. Cadarnhaodd 1 adolygiad nad oedd yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn.


- Mewn 52 (100.0%) adolygiad, cofnodwyd bod iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc wedi'i ystyried yn yr Asesiad Iechyd a/neu wrth drafod yn y cyfarfod.

  Cofnododd 6 adolygiad fod y plentyn / person ifanc yn rhy ifanc, felly diystyriwyd y rhain.

## 27. Natur y Ddarpariaeth Addysg:

Yn ystod y chwarter hwn, dyma oedd y ddarpariaeth addysg ar gyfer y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd.

| **Darpariaeth Addysg** | |
|---|---|
| Disgyblion ysgol gynradd | 20 |
| Disgyblion ysgol uwchradd | 18 |
| Plant cyn-ysgol | 14 |
| Coleg | 3 |
| Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) | 1 |
| Preswyl | 1 |
| Prosiectau eraill-Lleoliad Gwaith Arbenigol | 1 |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | |
| Addysg heblaw yn yr ysgol | |
| Wedi gadael ysgol | |
| Tiwtora | |
| Addysg Ddewisol yn y Cartref | |
| Cyflogedig | |
| **Cyfanswm** | **58** |




## 28. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.

<u>Targed a Bennwyd 70% - Targed a gyflawnwyd 94.1%</u>

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 34 o blant / pobl ifanc a oedd o oedran ysgol gorfodol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd 32 (94.1%) o'r plant a phobl ifanc dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol yn meddu ar Gynllun Addysg Personol cyfredol.

    - Cofnododd 12 (85.7%) adolygiad fod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau ymhen 20 diwrnod ysgol ar ôl cael eu derbyn i ofal neu o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl symud i ysgol newydd yn unol â'r gofynion.

    - Cofnododd 20 (100.0%) adolygiad fod gan y person ifanc Gynllun Addysg Bersonol cyfredol.

    - Cofnododd 2 (14.3%) adolygiad na chwblhawyd Cynllun Addysg Personol y person ifanc cyn pen 20 diwrnod; fodd bynnag, roedd y Cynllun Addysg Personol ar waith ar gyfer y ddau berson ifanc hyn yn fuan wedi hynny.

***

- Roedd gan 9 (25.0%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol/coleg angen dysgu ychwanegol wedi'i gydnabod.

***

- Roedd 9 (26.5%) adolygiad o'r farn bod y plant / pobl ifanc sy'n mynychu'r ysgol/coleg yn cyflawni llai na’u gallu yn eu haddysg. Ym mhob un o'r 9 (100.0%) adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn cael cymorth.

***

- Mewn 17 (100.0%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu pan ddechreuodd y lleoliad.

- Ni nododd yr un o’r arolygiadau y bu cyfnod pan oedd y plentyn / person ifanc heb fod mewn addysg am gyfnod wrth aros am le mewn ysgol.

## 29. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio

<u>Targed a Bennwyd 0% - Targed a gyflawnwyd 5.9%</u>

- Mewn 2 (5.9%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud i ysgol arall ac nad oedd yn symud yn sgil pontio, o gymharu â 0.0% yn y chwarter blaenorol.

## 30. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol

<u>Targed a bennwyd 12% yn cael gwaharddiad dros dro – Targed a gyflawnwyd 0.0%</u>
<u>Targed a bennwyd 1% yn cael gwaharddiad parhaol – Targed a gyflawnwyd 0.0%</u>

- Mewn 0 adolygiad (0.0%) adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu. Mae hyn yn cymharu â 2.5% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn dim adolygiad (0.0%) fod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

  Ni chafwyd dim gwaharddiadau yn ystod y cyfnod hwn ond roedd hybiau gofal plant.

## ADRAN TRI

### YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

**1. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gallu ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu**

Targed a Bennwyd 100% – Targed a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 42 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 6 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bod 5 o'r rhain wedi bod yn bresennol yn yr adolygiad.

- Cofnodwyd mewn 42 (100.0%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd

Dadansoddiad o'r ymgynghori
Bu 18 plentyn / person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy Teams.
Roedd 24 plentyn / person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori a/neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Ni chysylltodd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn uniongyrchol â dim plant / pobl ifanc yn ystod y cyfnod adolygu tu hwnt i'r cyfarfod adolygu.

**2 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli / Cynllun Ymwelydd Annibynnol**

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 41 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 17 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Hysbyswyd pob un o'r 41 (100.0%) o blant / pobl ifanc am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol a gwnaed atgyfeiriad. Cafodd 1 plentyn arall a oedd yn iau na 5 mlwydd oed ei atgyfeirio hefyd i'r gwasanaeth.

## 3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant a gafodd wybod am y Weithdrefn Gwyno.

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 97.2%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 36 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 2 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Roedd 35 (97.2%) plentyn / person ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o gymharu â 97.4% yn y chwarter blaenorol.
- Roedd angen i'r Gweithiwr Cymdeithasol roi gwybod i 1 (2.8%) plentyn / person ifanc am y weithdrefn gwyno.

## 4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu

Targed a Bennwyd 80% - Targed a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 51 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 8 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigyrau.

- Cwblhaodd 51 (100.0%) o rieni bapurau ymgynghori, neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a / neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a / neu roeddent wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod adolygu eu hunain, a / neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Anfonwyd Papurau Ymgynghori ar gyfer 50 adolygiad, ffoniodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y rhiant am 1 adolygiad arall.
  Mewn 39 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol, neu wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a/neu ar ôl yr adolygiad.

## 5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn.

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 50 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 8 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu roedd yn byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn yn y ffigyrau.

- Cwblhaodd 50 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a / neu buont yn bresennol yn yr adolygiadau yn ystod y cyfnod hwn.

**6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 86.2%

- Mewn 50 (86.2%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

- Cadarnhaodd 8 (13.8%) adolygiad nad oedd dim gwybodaeth iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

**Sylwadau:** 3 wedi'u gosod y tu allan i'r ardal. Mae Nyrsys Ysgol wedi cael eu hadleoli yn barhaus oherwydd rhaglen frechu pandemig Covid19.

**7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad**

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 100.0%

- Roedd gan 42 (100.0%) adolygiad gynrychiolydd ysgol yn mynychu neu'n rhoi adroddiad ysgrifenedig, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

**8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Dogfennau Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad**

Targed a Bennwyd 100% - Targed a gyflawnwyd 72.4%

- Mewn 42 (72.4%) adolygiad cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu, o gymharu â 68.3% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 16 (27.6%) adolygiad cadarnhawyd nad oedd y ddogfen adolygu wedi'i chwblhau gan y gweithiwr cymdeithasol cyn yr adolygiad; ac nid yw 4 o'r dogfennau hyn wedi'u cwblhau.

**Sylw:** Mae'r perfformiad o ran cwblhau gwaith papur ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal mewn modd amserol yn parhau i beri pryder. Mae hyn oherwydd problemau staffio yn y Timau Gwaith Cymdeithasol, sy'n parhau i gael effaith ar wella'r perfformiad hwn. Fodd bynnag, mae angen i arferion da yn y maes perfformiad hwn fod yn flaenoriaeth o hyd.

## ADRAN PEDWAR:
## PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Ni weithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod hwn.

Er y nodwyd nad oedd adolygiadau canol cyfnod yn cael eu cynnal, lle bo angen, roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn dwyn adolygiadau ymlaen pan oedd pryderon.

## ADRAN PUMP
## GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn

## ADRAN CHWECH

## CYNLLUNIAU LLWYBR

### Ar gyfer pobl dros 16 oed a heb fod yn Blant sy'n Derbyn Gofal / pobl dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 25 adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

1. **Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser**

   - Cynhaliwyd 20 adolygiad (80.0%) o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

   - Cynhaliwyd 5 adolygiad (20.0%) o Gynlluniau Llwybr y tu allan i'r amserlenni. Y rhesymau a gofnodwyd oedd nad oedd yna Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO); penodwyd IRO asiantaeth yn nechrau mis Chwefror.

2. **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig**

   - Ym mhob un o'r 25 adolygiad (100%) nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a / neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3. **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion Adolygu Cynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod**

   - Roedd y cofnod adolygu wedi'i gwblhau erbyn y cyfarfod ar gyfer 25 (100%) o adolygiadau Cynlluniau Llwybr, o gymharu â 90% yn y chwarter blaenorol.

4. **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y Cyfarfod Adolygu**

   - Cadarnhawyd mewn 20 adolygiad (80%) y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.

   - Cofnodwyd mewn 5 adolygiad (20%) nad oedd neb wedi cynrychioli barn y bobl ifanc yn y cyfarfod.

5. **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu Cyfarfod Adolygu**

    - Mewn 7 adolygiad (28%) cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu. Mewn 1 adolygiad arall cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol am ychydig iawn o amser.

    - Mewn 17 adolygiad (68%) cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

6. **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a fodlonai anghenion y bobl ifanc**

    - Mewn 24 adolygiad (96%) cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc dan sylw.

    - Mewn 1 adolygiad (4%) cofnodwyd na wyddys a oedd y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc dan sylw neu beidio.

7. **Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal / troi'n ddeunaw oed**

    - Nid oedd yr un person ifanc yn y categori o fod angen diweddaru'r Cynllun Llwybr cyn i'r person ifanc adael gofal / troi'n ddeunaw oed.

8. **Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.**

## ADRAN SAITH

## PRESWYL (NAD YDYNT YN BLANT SY'N DERBYN GOFAL)

Ni chynhaliwyd dim adolygiadau o leoliadau preswyl yn ystod y cyfnod dan sylw ar gyfer plant nad ydynt yn derbyn gofal.

***

## ADRAN WYTH

## SEIBIANNAU RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd dim adolygiadau o seibiannau rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

***

## ADRAN NAW

## SEIBIANNAU BYR

Ni chynhaliwyd dim adolygiadau o seibiannau byr yn ystod y cyfnod dan sylw.

***

## ADRAN DEG

## ADOLYGIADAU O OFALWYR MAETH

Cynhaliwyd 2 adolygiad o Ofalwyr Maeth yn ystod y cyfnod dan sylw.

**1 Dangosydd Perfformiad: Nifer a chanran yr Adolygiadau o Ofalwyr Maeth a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol**

- Ni chafodd yr un o'r ddau adolygiad eu cynnal o fewn y terfynau amser a hynny am nad oedd Cadeirydd Annibynnol.

**2 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgyngoriadau a dderbyniwyd oddi wrth y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal**

- Darparodd y Gweithiwr Cymdeithasol Plant sy'n Derbyn Gofal ymgynghoriad ar gyfer 1 adolygiad (50%) Gofalwr Maeth.

**3 Dangosydd Perfformiad: Canran yr ymgyngoriadau a dderbyniwyd oddi wrth blant**

- Ni chafwyd yr un ymgynghoriad oddi wrth blant.

**4 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adroddiadau a dderbyniwyd gan Weithwyr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio**

- Derbyniwyd adroddiadau gan y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio ar gyfer y ddau adolygiad (100%).

**5 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau oedd wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt wneud**

- Cadarnhawyd bod y ddau adolygiad (100%) wedi gallu gwneud yr hyn y bwriadwyd iddynt wneud.

**6 Dangosydd Perfformiad: Canran y lefel o fodlonrwydd o ran y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd**

- Nododd y ddau adolygiad (100%) fod y Gofalwyr Maeth yn 'fodlon iawn' ar y gwasanaeth a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd.

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **DYDDIAD:** | **6 Hydref 2021** |
| **LLEOLIAD:** | **Siambr y Cyngor, Penmorfa** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2021/2022** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.
Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.
Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.
Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu

- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Dwynwen Jones |
| **Dynodiad:** | Swyddog Trosolwg a Chraffu |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 23 Medi 2021 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

| Pwyllgor | Eitem(disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Iachach*** | | | |
| 24 Mehefin | Y Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO)<br><br>Diweddariad oddiwrth Cadeirydd y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod Mai 2021 Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal y Canolbarth | Sian Howys | Monitro |
| 17 Medi Arbennig Gwahoddiad I Aelodau Cymunedau sy’n Dysgu 2pm | Y Strategaeth Gydol Oes a Lles<br><br>Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2021: Cyngor Sir Ceredigion | Caroline Lewis<br><br>Sian Howys | |
| 22 Medi arbennig | Tipio Anghyfreithlon – esbonio’r weithdrefn<br><br>Rheoli Plâu<br><br>Gwasanaethau Canolfannau Lles a’r datblygiadau yng Nghanolfan Lles Llambed<br><br>Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy’n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 | Heddwyn Evans<br><br>Anne Louise<br><br>Elen James a Carwyn Young<br><br>Heddwyn Evans | Ar gais<br><br>Ar gais<br><br>Cais gan y swyddog<br><br>Cyn-Cabinet |
| 6 Hydref | Pryder – rhaid dod o hyd i fwy o ofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg fod yn flaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion. Tynnodd aelodau o'r cymunedau iachach sylw at y ffaith bod | Donna Pritchard<br>Nerys Lewis | Cais mewn cyfarfod pan yn trafod adroddiad yr IRO |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | plant Cymraeg eu hiaith yn cael eu rhoi gyda theuluoedd Saesneg eu hiaith. Dywedodd Aelod ei fod yn broblem hirsefydlog a bod y plant hyn mewn amgylchiadau rhyfedd iawn yn gorfod newid iaith.<br><br>Pecynnau Gofal gan gynnwys Dementia<br><br>Effaith defnydd cyffuriau yn y Sir<br><br>Adroddiad Swyddog Adolygu Annibynnol cwarter 4 2021 | Donna Pritchard a Heather West<br><br>John Callow<br><br>Sian Howys | Ar gais<br><br>Ar gais<br><br>Monitro |
| 20 Hydref arbennig | Safonau Masnach (scamiau)<br><br>Adroddiad Blynyddol Gofalwyr | Anne Louise<br><br>Lowri Evans | Ar gais<br><br>Cyn-Cabinet |
| 16 Rhagfyr | Polisi Grantiau a Benthyciadau<br><br>Lles Anifeiliaid | Llyr Hughes<br><br>Heddwyn Evans | Cyn-Cabinet<br><br>Ar gais |
| **2022**<br>24 Chwefror Paratoi'r Gyllideb 9:30am | | | |
| 16 Mawrth | Diweddariad ar Rheoli Plau | Anne-Louise | |
| Eitemau i'r dyfodol | Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Donna Pritchard | Monitro |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach (gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau sy'n Dysgu wedi'u gwahodd i fod yn bresennol) a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda ddydd Gwener, 17 Medi 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Elaine Evans, Hag Harris, Alun Lloyd-Jones, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, John Roberts, Lynford Thomas ac Ivor Williams.

**Yn bresennol o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu:** Wyn Thomas, Endaf Edwards, Gwyn James

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant ac Alun Williams

2.00pm – 3.35pm

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Paul Hinge am na fedrai ddod i'r Cyfarfod gan ei fod yn cyflawni dyletswyddau eraill ar ran y Cyngor. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Odwyn Davies, Keith Evans a Mark Strong am nad oedd modd iddynt ddod i'r Cyfarfod.

2 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio)**

Dim

3 **Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021 – 2027 a'r Cynllun Gweithredu**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol gyflwyniad a dangosodd fideo ar y Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021 – 2027 a'r Cynllun Gweithredu.

Esboniwyd fod y strategaeth hon yn rhan allweddol o Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion, sef y ddogfen sy'n dangos prif flaenoriaethau'r Cyngor. Nod y blaenoriaethau yw galluogi gwasanaethau a fydd yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion. Mae rhoi cymorth a chefnogaeth i'r holl oedrannau ac anghenion gwahanol yn her sylweddol i'r Cyngor gydag adnoddau cyfyngedig. Mae proffil y gymdeithas a demograffeg wedi newid cryn dipyn dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ynghyd â chynnydd yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny. Yn ogystal, mae lefelau diweithdra ynghyd â lefelau incwm isel wedi esgor ar fwyfwy o anawsterau i bobl gael mynediad at dai diogel, fforddiadwy.

Nododd y Pwyllgor y cytunwyd yn 2017 i gynnal adolygiad systematig o'r holl strwythurau a'r meysydd gwasanaeth i sicrhau bod gan wasanaethau'r

Cyngor y gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Cynlluniau a'r Amcanion Corfforaethol.

Mae’r gwaith o drawsnewid gwasanaethau wedi mynd rhagddo'n dda a'r newid mawr olaf yw integreiddio gofal cymdeithasol a dysgu gydol oes i mewn i’r tri gwasanaeth sef Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal. Y rhain, ynghyd â Chyswllt â Chwsmeriaid, yw'r pedwar prif faes sy'n dod o fewn rhaglen newid Gydol Oes a Llesiant.

Dechreuodd y gwaith o ailstrwythuro'r gwasanaethau hyn yn ffurfiol yn niwedd 2019 drwy weithredu strwythur y Rheolwyr Corfforaethol ar draws y gwasanaethau. Gohiriodd y pandemig y cynnydd gyda hyn yn ystod 2020 ond bwrwyd ymlaen â’r gwaith o fis Medi 2020 ymlaen. Cydnabuwyd bod angen strategaeth glir i yrru a rhannu'r angen am newid a sut i gyflawni hynny. Cynhaliwyd gweithdai gyda’r aelodau a rhoddwyd y newyddion diweddaraf iddynt drwy gydol y cyfnod o newid. Ymgysylltwyd ac ymgynghorwyd â’r Staff a’r Undebau Llafur ar bob adeg o'r broses.

Ar ddechrau'r rhaglen crëwyd gweledigaeth a oedd yn adlewyrchu'r rhaglen uchelgeisiol o newid:

‘Sicrhau bod pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd ei lawn botensial. Sicrhau mynediad teg i bawb i wasanaethau cyffredinol a phwrpasol rhagorol sy'n cefnogi iechyd a lles pob dinesydd. Datblygu sgiliau a chydnerthedd a fydd yn para am oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y dôn nhw ar eu traws.’

Mae'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant yn egluro'r weledigaeth a'r dulliau a gymerir i drawsnewid y gwaith o gefnogi llesiant a diogelwch pobl Ceredigion, gan roi amserlen o 2021 hyd 2027 i gyflawni'r newidiadau.

Mae'r strategaeth yn disgrifio'r trywydd y bydd y Cyngor yn ei ddilyn, ar y cyd â'i bartneriaid, i drawsnewid ei ffordd o weithio. Mae'n cynnig cyd-destun strategol ar gyfer y gwaith yn y dyfodol o gomisiynu, darparu gwasanaethau, rheoli gofal a rôl y Cyngor wrth integreiddio gwasanaethau. Mae'r strategaeth yn nodi sut y byddwn yn:

- Rhoi Model cyflenwi newydd ‘Gydol Oes a Llesiant’ ar waith
- Lleihau'r galw ar ofal a chymorth a reolir gan gyfeirio adnoddau tua’r rhai sydd arnynt eu hangen fwyaf
- Cefnogi ein gweithlu i ddatblygu dull newydd o gefnogi unigolion yng Ngheredigion
- Canolbwyntio ar wasanaethau ataliol sy'n helpu pobl i gadw’n annibynnol neu i adennill yr annibyniaeth y maen nhw’n ei chwennych
- Darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu system iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol fwy cydgysylltiedig

Mae'r Strategaeth yn tynnu sylw at bum amcan allweddol, ac mae'r rhain yn seiliedig ar ddeuddeg maes penodol sy'n ystyried pam fod ar deuluoedd ac unigolion angen gwybodaeth, cyngor, cymorth neu ofal.

Diben y Cynllun Gweithredu yw amlinellu'n glir yr hyn sy'n ofynnol dros y tair blynedd nesaf (a thynnu sylw at yr hyn sy'n debygol yn y blynyddoedd wedi hynny) i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Bydd hyn er mwyn bodloni pum amcan allweddol y Strategaeth ac, ar y cyd â'n partneriaid, ail-gydbwyso gofal a chymorth fel bod gwasanaethau cynaliadwy yn cael eu darparu yng Ngheredigion.

Pwysleisiodd aelod mor bwysig yw sicrhau bod gofal dementia yn parhau i fod yn flaenoriaeth a bod yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos gyda maes iechyd i sicrhau bod gofal yn aros o fewn y Sir.

Mynegwyd bod angen gwell cyfathrebu rhwng y gwasanaethau a CLIC i sicrhau bod Cynghorwyr a thrigolion yn cael adborth ynghylch pryd y bydd y materion a godir gyda CLIC yn cael eu datrys. Nodwyd bod 'diweddariad ar Wasanaethau Cwsmeriaid CLIC' yn eitem agenda y bwriedir ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 14 Hydref 2021. Cytunodd yr Aelodau y dylid canmol holl staff CLIC am eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

Tynnwyd sylw at ymyrraeth gynnar ac atal fel elfen allweddol am ei bod yn debygol y bydd galw cynyddol ar wasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc yn dilyn yr amharu a fu yn sgil Covid-19.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021 – 2027 a'r Cynllun Gweithredu, yn ddibynnol ar ystyried yr argymhelliad canlynol:

• Bod gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a gwasanaeth CLIC yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am fod yn bresennol ac am gyflwyno yn eglur a chryno.

4 **Archwiliad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru 2021**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wybod i'r Pwyllgor fod llythyr wedi dod i law oddi wrth Arolygiaeth Gofal Cymru, a hynny ar 2 Gorffennaf 2021 yn dilyn yr Archwiliad Sicrwydd a gynhaliwyd ym mis Mai 2021. Mae'r llythyr yn crynhoi canfyddiadau'r archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 10 Mai ac 14 Mai 2021. Roedd prif lwybrau ymholi'r Arolygiaeth yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maen nhw wedi cofnodi eu barn a'u canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio. Rhoddwyd crynodeb i'r Pwyllgor o'r canfyddiadau a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i nodi cynnwys y llythyr a chanmol holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad cyn ac yn ystod y pandemig.

Roedd yr Aelodau yn dymuno nodi bod y staff a'r gwasanaeth dan bwysau cynyddol ac yn gwneud y gorau y gallant o dan y pwysau a brofir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxx 2021**

**Cadeirydd:**